**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-16-00(p.6)**

**Dyddiad: 14 Medi 2000**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl: Sefydlu Cyngor Gofal Cymru**

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw darparu gwybodaeth bellach i’r Pwyllgor ynghylch sefydlu Cyngor Gofal Cymru.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r cynlluniau ar gyfer creu’r Cyngor, ac yn benodol, i nodi’r farn gyfredol am (1) raglen ddeddfwriaethol ffurfiol y Cynulliad, (2) y cydbwysedd arfaethedig rhwng aelodau’r Cyngor, a (3) amserlen arfaethedig cofrestru’r gweithlu gofal cymdeithasol.

**Cefndir**

3. Mae Pennod 5 o Bapur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Gymru gan *"Adeiladu ar gyfer y Dyfodol"* yn nodi’r rhaglen waith a luniwyd i godi safonau’rgweithlu gofal cymdeithasol. Y nod cyffredinol yw sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru sydd "wedi ei hyfforddi’n iawn, sydd â chymwysterau priodol ac sy’n cael ei reoli’n effeithiol". Ar yr un pryd, awgryma’r Papur Gwyn y dylai’r gweithlu ei hun allu disgwyl "cefnogaeth a chydnabyddiaeth briodol".

4. Y cynnig canolog yw creu corff statudol newydd o’r enw Cyngor Gofal Cymru i reoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol a chodi safonau hyfforddiant. Bydd y corff newydd yn Gorff gweithredol a Noddir gan y Cynulliad .

5. Bu i mi ddatgan ym mis Mehefin y bydd y Cyngor newydd yn ymgymryd â’i swyddogaethau ar 1 Hydref 2001. Ar yr un pryd, diddymir y corff presennol dros y Deyrnas Unedig, sef Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol (CCETSW). Bydd cyrff tebyg i Gyngor Gofal Cymru yn y gwledydd eraill, ac mae’r Papur Gwyn yn ein hymrwymo i weithio tuag at gysondeb ar draws y DU.

6. Bydd gan y Cyngor newydd dair set o swyddogaethau:

- bydd yn rheoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol trwy osod cod ymddygiad a chod ymarfer ar

gyfer cyflogedigion a chyflogwyr, a thrwy gofrestru'r unigolion hynny sy'n gweithio yn y maes ac sy'n ffurfio'r gweithlu;

- bydd yn cymryd i'w ddwylo swyddogaethau CCETSW am reoleiddio hyfforddiant ymgymhwyso a hyfforddiant ar ôl ymgymhwyso, a thros weinyddu'r cynllun bwrseriaeth ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol ôl-radd, ac

- yng Nghymru, bydd yn cyflawni swyddogaethau Corff Hyfforddi Gwasanaethau Cymdeithasol Personol Cymru (TOPSS). Mae'r rhain, o dan arweiniad cyflogwyr, yn cynnwys datblygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, a datblygu Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, fel yr addawyd yn y Papur Gwyn.

7. Mae swyddogion yn bwrw ymlaen â datblygu swyddogaethau'r Cyngor

trwy gyfrwng Tasglu ar Godi Safonau yn y Gweithlu. Mae hwn yn un o'r pum Tasglu a sefydlwyd i oruchwylio rhoi'r Papur Gwyn ar waith. Mae'n cael ei gadeirio gan Brif Arolygwr SSIW, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, sefydliadau defnyddwyr, a buddiannau undebol, proffesiynol ac addysgol ar draws Cymru. Mae iddo ddau is-grwp. Mae un yn cynghori ar gynlluniau i gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r llall yn cynghori ar ddatblygu strategaeth gyfathrebu a fydd yn ein helpu i gyrraedd y 50,000 i 60,000 o weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Deddfwriaeth y Cynulliad**

8. Sefydlir y Cyngor newydd trwy ddarpariaethau Rhan IV o Ddeddf

Safonau Gofal 2000, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Gorffennaf. Bydd penderfyniadau manylach yngln â chwmpas gwaith a dull gweithredu'r Cyngor yn fater i'r Cynulliad. Daw'r rhain i fod trwy ddeddfwriaeth y Cynulliad a thrwy Reolau'r Cyngor ar gymeradwyo rhaglenni hyfforddiant a chofrestru'r gweithlu. Rhaid i bob un gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad.

9. Yn amodol ar benderfyniadau'r Cynulliad, rhagwelir y bydd pedwar

darn o ddeddfwriaeth gan y Cynulliad. Yn fras, byddai'r rhain fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Erbyn Ebrill 2001: | Gorchymyn cychwyn yn creu "cragen" y Cyngor. ac yn darparu iddo fod yn atebol i'r Cynulliad |
| Erbyn Ebrill 2001: | Set o reoliadau "cyfansoddiadol" yn cynnwys penodi aelodau i'r Cyngor, a gweithdrefnau'r Cyngor. |

| | |
|---|---|
| Erbyn Hydref 2001: | Gorchymyn cychwyn yn rhoi ei swyddogaethau newydd i’r Cyngor - sydd gan CCETSW ar hyn o bryd - ar gyfer rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol. |
| Erbyn Medi 2001: | Gorchymyn cychwyn yn rhoi i’r Cyngor newydd ei swyddogaethau ar gyfer rheoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol. |

**Aelodaeth y Cyngor**

10. Pwysleisiodd y Papur Gwyn y "[b]ydd y Cyngor yn wahanol iawn i gorff rheoli traddodiadol, sy’n cael ei weinyddu’n bennaf gan y proffesiwn ei hun. Bydd gan bob un o’r prif rai sydd â diddordeb lais - a bydd defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a’r cyhoedd yn y mwyafrif" (*Adeiladu ar gyfer y Dyfodol*, paragraff 5.29). Mynegodd y Papur Gwyn hefyd y byddai gan y Cyngor gadeirydd lleyg, ac y byddai’r aelodau yn weddill yn cynrychioli cyflogwyr o bob sector, cymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur, a buddiannau addysg a hyfforddiant.

11. Y Cynulliad fydd yn penodi cadeirydd ac aelodau’r Cyngor. Mae’r

Tasglu sy’n cynghori ar greu’r Cyngor wedi ystyried rhychwant a chydbwysedd yr aelodaeth. Cynghorodd y dylai gynnwys y canlynol i gyflawni bwriadau’r Papur Gwyn:

- cadeirydd lleyg,
- pedwar cynrychiolydd dros ddefnyddwyr y gwasanaeth,
- pedwar cynrychiolydd gofalwyr,
- pedwar o bobl lleyg eraill,
- un cynrychiolydd o Gyngor Llywodraeth Leol Cymru,
- un cynrychiolydd o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru,
- dau gynrychiolydd cyflogwyr o’r sector preifat,
- un cynrychiolydd o’r cymdeithasu proffesiynol perthnasol,
- un cynrychiolydd o’r undebau llafur perthnasol, a
- thri chynrychiolydd buddiannau addysg a hyfforddiant.

12. Bwriedir i aelodaeth y Cyngor fod yn gytbwys o ran hil, rhyw, iaith, cynrychiolaeth ranbarthol ac anabledd.

**Cofrestru’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol**

13. Bu i’r Papur Gwyn adrodd ar yr ymgynghoriadau eang ar gofrestru’r gweithlu a gynhaliwyd yng Nghymru yn Haf 1998. Darganfu’r ymgynghoriadau hyn fod nifer fawr yn awyddus i eithrio pawb sydd wedi’u profi’n anaddas i weithio yn y maes o’r gweithlu – p’un a ydynt yn gymwys ai peidio. Roedd bron pawb y cysylltwyd â hwy yng Nghymru am i’r Cyngor symud mor fuan ag sy’n ymarferol bosibl

tuag at gofrestru'r gweithlu yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y rhai heb gymwysterau ar y dechrau.

14. Mae'r Adran Iechyd yn cynnig cyfyngu'r cofrestru yn Lloegr i'r rheini â chymwysterau, sydd ar hyn o bryd yn cyfrif am 15% o'r gweithlu yn unig. Fodd bynnag, pan oedd y ddeddfwriaeth yn cael ei pharatoi, bu i mi gadarnhau fy mod am i'r Cynulliad feddu ar yr hyblygrwydd i allu mabwysiadu ymagwedd fwy cynhwysfawr - yn unol â'r Papur Gwyn - pe dewisai wneud hynny. Dan amodau'r Ddeddf Safonau Gofal, lle'r Cynulliad fydd gwneud y penderfyniadau hyn.

15. Mae'r Tasglu ar Godi Safonau yn y Gweithlu wedi rhoi ystyriaeth gychwynnol i gwmpas a chyflymder y cofrestru. Cymerodd y Papur Gwyn fel man cychwyn, ac mae wedi datblygu argymhellion i'r Cyngor newydd gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol cyfan. Ar hyn o bryd, mae'r Tasglu o'r farn y dylid cofrestru'r rhan fwyaf o weithwyr, ar wahân i weithwyr cymdeithasol cymwys, ar sail archwiliadau cyn cychwyn, eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer a'r Cod Ymddygiad, a'u bod yn dechrau ar eu gwaith â chymhwyster priodol. Yna byddai'r Cyngor - fel a nodwyd yn y Papur Gwyn - yn defnyddio'i bwerau i godi safonau hyfforddiant a chymwysterau. Cred y Tasglu y gellir cwblhau'r cofrestru cychwynnol dros gyfnod o bedair blynedd, a'i ymestyn i bum mlynedd o bosibl, os yw hynny'n angenrheidiol. Yn fras, byddai'r pedwar cyfnod fel a ganlyn:

| **Cyfnod** | **Amseru** | **Grwpiau staff** | **Nifer yn fras** |
|---|---|---|---|
| Cyfnod 1 | 2002-03 | gweithwyr cymdeithasol cymwys | 2,500 |
| | | cynorthwywyr a myfyrwyr gwaith cymdeithasol | 1,000 |
| | | staff mewn cartrefi plant | 750 |
| Cyfnod 2 | 2003-04 | staff mewn cartrefi ar gyfer oedolion | 28,000 |
| | | staff Arolygiaeth Safonau Gofal | 200 |
| Cyfnod 3 | 2004-05 | staff gofal ar yr aelwyd | 12,000 |
| Cyfnod 4 | 2005-06 | staff mewn canolfannau gofal dydd | 6,000 |
| | | eraill, rheolwyr a staff cymorth yn bennaf | 3,000 |

**Goblygiadau Ariannol**

16. Nid yw'r papur hwn yn creu goblygiadau ariannol. Mae'r egwyddorion yn fras dros ariannu'r Cyngor yn parhau i fod fel yr hyn a nodwyd yn y Papur Gwyn. Bydd y ffynonellau o gael arian yn cynnwys trosglwyddo cefnogaeth gyfredol y Cynulliad i CCETSW, a graddfa o ffioedd cofrestru, felly dylai'r swyddogaeth gofrestru allu ariannu'i hun ymhen pum mlynedd. Asesir y goblygiadau ar gyfer 2001-02 a'r blynyddoedd i ddod fel rhan o Gylch Cynllunio Cyllideb 2000.

**Jane Hutt**

**Cyswllt:**

Colin Vyvyan, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru